

# Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

## Cofnodion

### Teitl y cyfarfod:

Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

**Lleoliad:** Cyfarfod dros Microsoft Teams

**Dyddiad y Cyfarfod:** 21 Tachwedd 2022

### Yn bresennol:

Zoe Henderson, CNC (Cadeirydd)

Dennis Matheson, TFA

Marc Williams, CNC

James Ruggeri, HCC

Einir Williams, Cyswllt Ffermio

Shane Thomas, Ffederasiwn Pysgotwyr Caerfyrddin

Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Caerfyrddin

Mathew Walters, Llywodraeth Cymru

Polina Cowley, Llywodraeth Cymru

Sarah Jones, Dŵr Cymru

Sarah Hetherington, CNC

Chris Thomas, CNC

Kate Snow, United Utilities

Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru

David Letellier, CNC

Katy Simmons, CNC

David Ball, AHDB

Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru

Fraser McAuley, CLA

Ruth Johnstone, CNC

### **Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:**

Jeremy Walters, CNC

Sue Ginley, CNC (Eitem 6)

Dr Sue Byrne, CNC (Eitem 7)

Dr Morag Taite, CNC (Eitem 7)

### **Ysgrifenyddiaeth:**

Bronwen Martin, CNC

### **Ymddiheuriadau:**

Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru

Delyth Lewis-Jones, AHDB

## **Eitem 1 Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant**

1. Croesawodd Zoe Henderson (Aelod o Fwrdd CNC a Chadeirydd Is-Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru) bawb i'r cyfarfod dros Microsoft Teams gan nodi'r ymddiheuriadau. Sylwer bod y cyfarfod yn cael ei recordio ar gyfer y cofnodion ac y bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu pan fydd cofnodion y cyfarfod wedi'u cymeradwyo.
2. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas â'r eitemau ar yr Agenda.
  - DS: Mae pob aelod o'r grŵp eisoes wedi llenwi ffurflenni datganiad o fuddiant ond dylent hefyd ddatgan a oes ganddynt fuddiant mewn unrhyw fater ar yr agenda.

## **Eitem 2 Adolygu'r Cofnodion a'r Camau Gweithredu**

3. Ar ôl i'r grŵp adolygu cofnodion y cyfarfod a chytuno'n ffurfiol arnynt, cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd y cofnodion hynny'n cael eu cyhoeddi ar wefan CNC lle byddant ar gael i'r cyhoedd. Felly, mae'n bwysig i'r cofnodion fod yn gofnod cywir o'r cyfarfodydd.
4. Adolygodd y grŵp gofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2022.
5. Soniodd Zoe am gam gweithredu a gofynnodd a oedd Matthew Walters, Llywodraeth Cymru, wedi dod o hyd i unrhyw wybodaeth am hau dan indrawn a rhygwellt. Dywedodd Matthew iddo dderbyn yr wybodaeth ganlynol gan gydweithiwr:

'Mae Tyfu er mwyn yr Amgylchedd yn gynllun newydd sy'n cynnig cymorth tuag at dyfu cnydau sy'n gallu arwain at welliannau ym mherfformiad amgylcheddol busnes fferm.

Mae'r rhain yn cynnwys cnydau gorchudd, gwyndynnydd cymysg, cnydau protein a grawnfwydydd heb eu chwistrellu.

Mae hau dan indrawn wedi'i gynnwys fel opsiwn i sefydlu cnwd gorchudd o fewn cnwd indrawn sy'n tyfu. Y gofyniad yw defnyddio cymysgedd o hadau i gynnwys o leiaf 2 rywogaeth o gnydau sy'n addas ar gyfer tyfu yng nghysgod cnwd indrawn.

Gellir defnyddio rhygwellt fel rhan o'r cymysgedd ac mae'n debygol mai dyma fydd y rhywogaeth fwyaf cyffredin o hadau a ddefnyddir yn yr achos hwn, ond nid ar 100%.

Mae amcanion cynnig yr opsiwn hwn yn cynnwys:

- Atal erydu pridd drwy gynnal gorchudd porfa ar ôl cynhaeaf indrawn.
- Diogelu a gwella ansawdd dŵr.
- Lleihau colled maethynnau ac erydu pridd yn ystod y gaeaf
- Gwella strwythur pridd drwy dorri cywasgiad yn y pridd ac annog amsugniad dŵr.
- Cynyddu deunydd organig, strwythur a chyfansoddiad mwynau yn y pridd drwy awyru a chloi nitrogen i mewn, gan sicrhau ei fod ar gael i'r cnwd a gaiff ei hau y gwanwyn canlynol.
- Darparu cysgod a manau bwydo ar gyfer adar tir fferm a mamaliaid bychain yn y gaeaf.

Nid ydym yn cefnogi hau dan indrawn.

Nid ydym chwaith yn cefnogi ail-hadu gwyndynnydd rhygwellt yn unig.

Mae ein hopsiwn gwyndynnydd cymysg yn cael ei hyrwyddo fel opsiwn i ddisodli ungnydau rhygwellt yn bennaf, gyda manteision amgylcheddol a bioamrywiaeth yn deillio o hynny'.

Mae rhagor o fanylion am y cynllun ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/tyfu-er-mwyn-yr-amgylchedd-llyfryn-rheolau>

6. Soniodd Zoe fod Creighton Harvey, CFF, wedi cysylltu â Bronwen Martin, CNC, gyda rhai sylwadau a gwelliannau awgrymedig ar gyfer cofnodion cyfarfod mis Hydref. Gofynnodd Zoe a oedd hyn wedi'i ddatrys. Dywedodd Creighton fod hyn yn ymwneud â thrafodaethau gydag Einir Williams, Cyswllt Ffermio, ynghylch y gweithdai llygredd amaethyddol sy'n cael eu cynnal gan Cyswllt Ffermio. Cytunwyd fod y testun yn gofnod cywir o'r drafodaeth, ond mae Bronwen wedi ychwanegu rhywfaint o gyd-destun atodol y cytunodd Einir a Creighton iddo.
7. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau na gwelliannau awgrymedig eraill mewn perthynas â chofnodion cyfarfod mis Hydref.

### Eitem 3 Materion yn Codi

8. Dyma gyfle i'r grŵp drafod unrhyw faterion sy'n deillio o gofnodion y cyfarfod blaenorol, dogfennau perthnasol neu bynciau diweddar.

9. Tynnodd Zoe sylw at drafodaeth yn ystod y cyfarfod diwethaf am Offeryn 'Slurry Wizard' AHDB a gofynnodd a oes bwriad yng Nghymru i ddefnyddio'r offeryn hwn yn fwy cyfannol. Soniodd Zoe ei fod yn ymddangos yn offeryn pwysig a ddefnyddir gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr, ac nad oes angen i ni ailddyfeisio'r olwyn yng Nghymru os oes offeryn gwych eisoes yn bodoli. Dywedodd David Ball, AHDB, fod yr Offeryn 'Slurry Wizard' wedi ei fabwysiadu/ei gymeradwyo gan Asiantaeth yr Amgylchedd lle mae'n ofynnol i'r holl ymgeiswyr i'w grant seilwaith slyri ei ddefnyddio i ddangos eu gofynion capasiti storio. Dywedodd David y bydd yn gwneud yn union yr un fath ar gyfer Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021. Soniodd David am elfen glawiad yr offeryn; ar hyn o bryd, mae'r data glawiad yn cael ei gyrchu drwy gronfa ddata gan ddefnyddio eich cod deialu statudol fel lleolydd ar gyfer y fferm, er nad hwn yw'r dull mwyaf cywir. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn gweithio ar system well a ddylai ei dynnu i lawr i ardal fwy diffiniedig. Fodd bynnag, mae cyfleuster yn yr offeryn i fewnosod eich ffigurau glawiad eich hun yn hytrach na chael mynediad at y gronfa ddata sydd wedi'i sefydlu. Dywedodd David ei fod yn deall bod ffigurau glawiad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, felly efallai bod modd cyrchu'r rheini a'u mewnosod â llaw yn yr offeryn. Dywedodd Matthew fod map manylach ar borth mapio [Lle](#) ar gyfer ffigurau glawiad.

Tynnodd Dennis Matheson, TFA, sylw at gyfnod deng mlynedd yn ôl pan oedd yn edrych ar ddata glawiad i helpu i bennu tanc elifion o ba faint oedd ei angen ar gyfer clamp silwair, pan ddarganfu fod canolfan cofnodi glawiad tua hanner milltir i ffwrdd. Awgrymodd Dennis efallai fod llawer o orsafoedd tywydd lleol nad yw pobl yn ymwybodol ohonynt. Rhybuddiodd David, os ydych chi'n defnyddio eich data glawiad eich hun (p'un a yw'n cael ei gyrchu o wefan, cronfa ddata neu wedi'i gofnodi'n lleol), i beidio â defnyddio'r data cyfartalog oherwydd, drwy ddiffiniad, 50% o'r amser rydych chi'n mynd i gael mwy o law na'r cyfartaledd.

Cytunodd Bernard Griffiths, FUW, nad oes angen i ni ailddyfeisio'r olwyn a datblygu modelau newydd ond, ar yr un pryd, mae'r materion hyn wedi'u datganoli i Gymru ac mae'n rhaid i ni fod yn ofalus gan efallai fod rhai gwahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr. Mae cryn ddryswch eisoes o fewn y gymuned ffermio ynglŷn â'r rheoliadau, felly mae angen i ni gadw pethau mor syml a hawdd â phosibl.

Soniodd Sarah Hetherington, CNC, o safbwynt CNC, ein bod wedi gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ac AHDB ar y 'Slurry Wizard'. Y ffigurau sydd y tu ôl i'r offeryn hwnnw yw'r ffigurau M5 nad ydynt yn cynrychioli cyfartaledd blynyddol; maent ar gyfer cyfnodau dychwelyd o 5 mlynedd. Dyna a bennwyd o dan [Reoliadau Adnoddau Dŵr \(Rheoli Llygredd\) \(Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol \(Lloegr\) 2010](#) a dyma'r llinell sylfaen ar gyfer y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol newydd. Nid yw'r set ddata honno ar gael heb dâl a dyna pam y mae wedi'i hymgorffori yn y 'Slurry Wizard', fel ei bod yn hygyrch ac am ddim ar y pwynt defnyddio yn hytrach na'ch bod yn gorfod prynu eich data.

Soniodd Chris Thomas, CNC, fod rhwng 850 a 900 o ffermydd godro wedi derbyn ymweliad drwy'r Prosiect Llaeth, ac y byddant wedi derbyn ffigur glawiad unigol drwy Dîm Hydroleg CNC. Bydd y data hwnnw'n gywir iawn ac yn gyfredol, sy'n helpu'r ffermwyr hynny.

10. O ran Cylchlythyr Is-Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru, dywedodd Katy Simmons, CNC, ei bod wedi rhannu rhestr gynnwys gyda Marc a Bronwen ac, ar hyn o bryd, mae tua

wyth stori. Gofynnodd Katy i'r aelodau anfon unrhyw erthyglau funud olaf ati erbyn 23 Tachwedd. Yna, bydd yn cael ei gyfieithu a'i ddsbarthu.

***PG Tachwedd 01: Aelodau i anfon unrhyw erthyglau cylchlythyr funud olaf at Katy Simmons, CNC, erbyn 23 Tachwedd.***

11. Gofynnodd Fraser McAuley, CLA, wrth Lywodraeth Cymru am yr amserlen ar gyfer ymateb ynglŷn â'r Adroddiad Mesurau Amgen. Dywedodd Matthew eu bod yn edrych ar hyn ac y bydd Andrew Chambers yn dychwelyd i helpu gyda'r gwaith hwn. Soniodd Matthew am ddatblygiad yr ymgynghoriad ar gynllun trwyddedu. Dywedodd Matthew y byddant yn darparu diweddariad pan fo hynny'n bosibl, ond eu bod yn datblygu'r broses o asesu'r Mesurau Amgen er mwyn dod i gasgliadau cadarn. Nid oes amserlenni pendant ar hyn eto. Gofynnodd Zoe pryd fydd yr ymgynghoriad yn barod. Dywedodd Matthew ei fod yn cael ei ddatblygu ond nad oedd mewn sefyllfa i rannu amserlenni.

## **Eitem 4 Cyflwyniad: Prosiect Pedair Afon LIFE**

12. Chris Thomas, CNC, i roi cyflwyniad yn cyflwyno [Prosiect Pedair Afon LIFE](#).

13. Mae Prosiect Pedair Afon LIFE yn cwmpasu'r gwaith o wella pedair afon Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) fawr yng Nghymru: Teifi, Cleddau, Tywi a'r Wysg. Dangosodd Chris fap yn nodi lleoliad y pedair afon.

14. Rhoddodd Chris drosolwg o'r prosiect, sydd am bum mlynedd (yn rhedeg tan ddiwedd 2026) ac sydd â chyllideb o £9.11 miliwn. Mae'r prosiect yn edrych ar holl nodweddion arbennig yr ACA a bydd yn defnyddio atebion tymor hir ar sail natur i wella ansawdd ecolegol y pedair afon, megis gwella hygyrchedd ar gyfer pysgod mudol, gwella strwythur a swyddogaeth cynefinoedd a gwella ansawdd dŵr.

15. Dywedodd Chris mai ei rôl bennaf o fewn y prosiect yw gweithio gyda ffermwyr i leihau gwaddodiad a mewnbynnau maethynnau. Mae cyllideb fechan ar gyfer lleihau rhywogaethau goresgynnol estron (e.e. Jac y Neidiwr, clymog ac ati) a phlastig.

16. Drwy'r prosiect, rydym yn awyddus i ddangos arfer gorau o ran adfer afonydd drwy gymryd beth mae prosiectau eraill wedi'i wneud (e.e. prosiect LIFE Dyfrdwy yn y Gogledd) a cheisio gwneud gwelliannau pellach.

17. Y partneriaid allweddol a'r cyd-gyllidwyr yw Dŵr Cymru a Llywodraeth Cymru, er bod cyfran o'r arian wedi dod o Ewrop. Mae'r prosiect hefyd yn gweithio gyda Choleg Sir Gâr, y Ganolfan Adfer Afonydd, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Coed Cadw. Rhwng yr holl sefydliadau, rydym yn gallu manteisio ar lawer o gyngor, arweiniad a gwybodaeth.

18. Nodwyd rhywogaethau targed lle bydd y prosiect yn ceisio gwella eu cynefin a chynyddu eu niferoedd. Mae'r rhywogaethau targed yn cynnwys:

- Llysywen bendoll yr afon a'r môr
- Eog
- Crothell
- Misglen berlog yr afon

- Gwangen a herlyn
- Dyfrgi
- Cynefin 'ranunculion'

19. Rhoddodd Peter drosolwg o rai o amcanion allweddol y prosiect, gan gynnwys:

- C.1: Cyfyngiadau i Fudo Pysgod (12 rhwystr i fynd i'r afael â nhw, 5 ar afon Wysg)
- C.2: Adfer prosesau afonol
- C.3: Ail-ymdroelli a gorlifdiroedd
- C.4: Coridorau glannau afonydd
- C.5: Rheoli tir
- C.6 Ailgyflwyno Misglen Berlog yr Afon
- C.7 Rheoli Rhywogaethau Goresgynol Estron

20. Mae rhan fawr o'r prosiect wedi'i gynllunio i fonitro'r waelodlin drwy gymryd yr holl wybodaeth rydym wedi'i chael ar draws y pedair afon a monitro camau'r prosiect i weld beth rydym wedi'i wneud, ble a beth yw'r gwelliannau. Mae hyn yn cynnwys arolygon electrobysgota, olrhain gwangod penodol, arolygon hydroacwstig, samplu cic sylfaenol, profion ansawdd dŵr, arolygon cynefinoedd a threialu rhydocs. Mae profion pridd hefyd yn bwysig, a gobeithiwn weld gostyngiad graddol i rywbeth mwy cynaliadwy mewn rhai ardaloedd (efallai lle mae P a K yn rhy uchel).

21. Mae gofyn edrych ar yr effeithiau economaidd-gymdeithasol hefyd. Bydd yn edrych ar yr effeithiau ar y cymunedau a'r economi leol ac yn ceisio creu a helpu i wella'r economi wledig leol gynaliadwy.

22. Dywedodd Chris y bydd y gwaith pwysicaf yn cynnwys cyfathrebu ac ymgysylltu, gan gynnwys digwyddiadau cymunedol, ymgysylltu ag ysgolion a rhanddeiliaid ac arddangos astudiaethau achos. Dywedodd Chris y byddai hefyd yn hoffi i'r tîm fynd allan gyda Cyswllt Ffermio ac ymgysylltu â grwpiau Agrisgôp. Mae adran o fewn y prosiect o'r enw 'defnyddio technegau ffermio clyfar sydd ar gael' sy'n ein galluogi i edrych ar y dechnoleg, y datblygiadau a'r gwelliannau diweddaraf mewn amaethyddiaeth gynaliadwy, i weld beth allai fod yn briodol a sut y gellir ei gymhwyso.

23. Soniodd Chris Mills, WEL, fod cryn dipyn o waith wedi'i wneud ar yr afonydd hyn o'r blaen, yn enwedig afon Wysg, a gofynnodd faint o ymchwil sydd wedi'i wneud i ganfod y statws presennol. Yn ôl Chris Thomas, pan ysgrifennwyd y prosiect yn 2018/2019, edrychwyd ar bob un o'r Cynlluniau Adfer Afonydd ynghyd â'r holl ddata blaenorol ar ansawdd dŵr. Un o'r partneriaid allweddol yw Sefydliad Gwy ac Wysg ac rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Dŵr Cymru a'i dimau dalgylch. Felly, mae grŵp o sefydliadau i gyd yn cydweithio ac yn rhannu gwybodaeth. Un o'r prif nodau yw sicrhau nad ydym yn troedio hen dir.

24. Roedd Sarah Hetherington yn cofio bod y tîm yn edrych ar dechnegau gwahanol ar draws ystod o bortffolios. Gofynnodd Sarah a sut mae sicrhau y gallwn fabwysiadu'r pethau sy'n cael eu treialu o fewn gofod arloesol fel arferion prif ffrwd a chael y dystiolaeth ar gyfer hynny. Dywedodd Chris eu bod wrthi'n pennu ar ba raddfa y gall

hyn weithio, boed hynny ar raddfa fferm unigol neu efallai ar raddfa dalgylch. Er enghraifft, gweithio gyda nifer o ffermwyr neu dirfeddianwyr mewn ardal, gan fonitro'r effaith i fyny'r afon ac yna monitro'r effaith i lawr yr afon. Yr her yw y byddwn yn gwneud gwahanol fathau o waith ar bob fferm, felly bydd pennu pa gam neu ymyrraeth sy'n rhoi effaith gadarnhaol yn anodd. Dywedodd Chris nad ydyn nhw yno eto, ond mae'r tîm yn ceisio pennu sut mae modd gwneud hyn.

25. Roedd Bernard yn cofio Chris yn dweud ei fod wedi cael siom ar yr ochr orau gyda nifer y ffermwyr sy'n ffensio ar hyd afonydd, a gofynnodd faint o'r gwaith hwnnw oedd yn cael ei wneud ar dir dwys. Gofynnodd Bernard hefyd a oes perygl o syrthio i fagl o ran cyllido dwbl ar gyfer y prosiect hwn. Yn ôl Chris, ar y cyfan mae'r ffermydd mwy helaeth wedi gwneud llawer o'r gwaith ffensio yn barod, ac efallai y bydd yn anoddach darbwyllo'r ffermwyr â'r godro dwys. O ran cyllido dwbl, dywedodd Chris fod hynny'n rhywbeth y mae'n rhaid iddynt fod yn ofalus iawn ohono ac y byddant yn llunio contract gyda phob rheolwr tir. Mae'r prosiect ond yn ariannu buddsoddiadau cyfalaf, neu byddwn yn talu am y ffens neu'n talu am y coed. Ar hyn o bryd, nid oes cyllid tymor hir parhaus. Dylai ein gwaith helpu'r ffermwyr i ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a phrosiectau eraill ond, o fewn y contract, bydd gofyn nad ydynt yn ceisio cyllido dwbl. Gofynnodd Sarah Hetherington a ydynt yn casglu gwybodaeth yn ganolog am yr hyn sydd wedi mynd i ble. Dywedodd Chris fod hynny'n rhan o'i rôl a bod ganddo sawl taenlen yn mapio pwy, beth, ble ac ati.

26. Trafododd Dennis Arglawdd Tan Lan a'r ymgynghoriad presennol. Soniodd Dennis hefyd am bwysigrwydd gwrando ar ffermwyr sydd â gwybodaeth leol gan eu bod yn adnabod eu tir.

***PG Tachwedd 02: Chris Thomas, CNC, i rannu copi o'i gyflwyniad ar Brosiect Pedair Afon LIFE.***

## **Eitem 5: Cyflwyniad: Amonia yng Nghymru**

27. Parhaodd Polina Cowley, Llywodraeth Cymru, â'r gyfres cyflwyniadau amonia drwy drafod effeithiau amonia ar yr amgylchedd yng Nghymru (rhan 1) a thechnolegau newydd gan gynnwys triniaethau slyri (rhan 2).

28. Dechreuodd Polina gyda Rhan 1 o'r cyflwyniad yn trafod y 'lefelau critigol' yng Nghymru. Lefelau critigol yw crynodiadau o lygryddion yn yr atmosffer na ddisgwylir i effeithiau andwyol uniongyrchol ar dderbynyddion (megis pobl, planhigion, ecosystemau neu ddeunyddiau) ddigwydd o dan y lefelau hynny. Mae crynodiadau amonia (NH<sub>3</sub>) sy'n fwy na'r lefel gritigol o 1 µg m<sup>-3</sup> (a osodwyd i ddiogelu bryoffytau a chennau sensitif) yn cynyddu ar y raddfa gyflymaf yng Nghymru o gymharu â Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Mae canran y tir yng Nghymru lle mae crynodiadau amonia yn fwy na lefelau critigol wedi tyfu 12% yn y 10 mlynedd diwethaf. Mae'n golygu nad yw 69% o dir Cymru bellach yn caniatáu i gennau a mwsoglau fodoli'n iach. Adlewyrchir y duedd gyffredinol hon yn nhwf canran y cynefinoedd sensitif i nitrogen, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) lle mae crynodiadau amonia yn fwy na'r lefelau critigol o 1 µg m<sup>-3</sup>. AGA sydd wedi cael eu heffeithio waethaf; bellach mae 20% yn fwy o AGA yng Nghymru lle mae lefelau NH<sub>3</sub> yn uwch na'r lefel critigol o gymharu â 2009.

29. Mae bywyd iach Coetir Hynafol yn dibynnu llawer ar gennau. Nododd Polina i ba blanhigion mae cynnydd mewn amonia yn fanteisiol ac yn anfanteisiol. Pan mae NH<sub>3</sub> yn disgyn ar y dirwedd, gall ymyrryd ag ecosystemau daearol, dŵr croyw a morol. Gall NH<sub>3</sub> asideiddio priddoedd a dŵr croyw, gorwrteithio cymunedau planhigion naturiol ac mae'n wenwynig i blanhigion is, megis cennau a bryoffytau. Mae tua 61% o Goetir Lled-Naturiol Hynafol yng Nghymru yn profi crynodiadau o amonia sy'n uwch na'r Lefel Gritigol ar gyfer ecosystemau sy'n llawn cennau a bryoffytau. Gall coeden aeddfed mewn coetir hynafol gipio'r un faint o lygryddion mewn 1 flwyddyn â glasbren sydd newydd ei blannu mewn 30 mlynedd.
30. Dywedodd Polina ein bod ni i gyd yn deall bod plannu coed yn dda iawn ar gyfer newid yn yr hinsawdd, ond mae ecosystemau pwysig eraill hefyd ar gyfer dal carbon. Mae amonia fel nwy ond yn aros yn yr atmosffer am ychydig oriau wedi iddo gael ei allyrru. Gall dyddodiad amonia i'r amgylchedd, naill ai fel nwy (dyddodiad sych) neu fel dyddodiad gwlyb achosi niwed sylweddol yn y tymor hir i gynefinoedd sensitif. Ystyrir bod mawndiroedd ymhlith yr ecosystemau mwyaf gwerthfawr ar y blaned, a gallant leihau nwyon tŷ gwydr drwy gloi carbon i ffwrdd. Mae ymchwil yng Ngogledd Iwerddon yn dangos bod dyddodiad gwlyb nitrogen (mae hyn yn digwydd ar ôl i nwy amonia gael ei amsugno i'r dŵr glaw) yn niweidio mawndir yn yr ardaloedd o grynodiadau amonia atmosfferig isel sy'n bell i ffwrdd o'r ffynonellau llygredd. Mae dŵr glaw yn lladd mwsoglau migwyn sy'n tynnu carbon allan o'r atmosffer a'i gloi mewn morfeydd heli.
31. Gofynnodd Dennis a fu unrhyw ymchwil ar faint o amonia sy'n cael ei gipio gan laswelltir parhaol sy'n cael ei ffermio'n helaeth (e.e. dros gyfnod o 50 mlynedd) o gymharu â choed sy'n cael eu plannu nawr dros gyfnod o 50 mlynedd. Yn y bôn, a yw glaswelltir yn well am gipio amonia dros 50 mlynedd na phe bai'n cael ei blannu â choed. Dywedodd Polina nad yw glaswelltir yn well; y ffordd orau o gipio amonia yw morfeydd heli, yna mawndir ac yna coed. Soniodd Polina fod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) yn bwriadu cynnwys lleiniau cysgodi o goed o amgylch ffermydd, ond ei fod yn destun ymgynghoriad yn y dyfodol. Mae ymchwil yn dangos, os oes gennych goed o gwmpas fferm ddwys, eu bod yn cipio'r amonia a'i atal rhag mynd i gynefinoedd sensitif.
32. Gofynnodd Ruth Johnston, CNC, a fu unrhyw ymchwil, sy'n cyfateb i'r ymchwil yng Ngogledd Iwerddon, am fawndiroedd Cymru a sut y maent yn cael eu heffeithio gan amonia. Dywedodd Polina y byddai'n wirioneddol wych pe bai gennym astudiaeth ar hyn gan y gallai ein data fod yn wahanol oherwydd tirwedd Cymru. Dywedodd Polina nad yw'n ymwybodol o unrhyw ymchwil o'r fath yng Nghymru, ond mae llawer o waith wedi'i wneud ar adfer mawndiroedd, felly efallai y bydd rhywbeth ar hyn yn y dyfodol.
33. Roedd Bernard yn cofio Polina yn sôn am beth fyddai'n elwa a beth fyddai ar ei golled, gyda migwyn a grug ymhlith y rhai a fyddai ar eu colled. Gofynnodd Bernard a yw arolygon megis yr Adroddiad Sefyllfa Byd Natur yn cefnogi dirywiad yn y rhywogaethau hynny dros yr un cyfnod ag y mae'r amonia wedi bod yn codi. Dywedodd Polina nad oedd yn ymwybodol o'r adroddiad hwnnw, a gofynnodd am ddolen. Soniodd Bernard am yr Adroddiad Sefyllfa Byd Natur mewn adroddiad blynyddol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru [Ymchwil y Senedd: Adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2019](#).
34. Roedd Chris Mills yn cofio bod cennau a bryoffytau yn cael eu heffeithio gan lefelau uchel o amonia, a gofynnodd a yw'r coed yn y Coetiroedd hynafol yn cael eu heffeithio hefyd. Dywedodd Polina fod yr wybodaeth a dderbyniodd gan adran Goedwigaeth



Llywodraeth Cymru yn awgrymu eu bod yn poeni'n benodol am y lefelau critigol sy'n uwch na 61%, ond gallai fod yn anodd mesur rhai o'r ffigurau. Dywedodd Jeremy Walters, CNC, ein bod yn ymwybodol bod gwydnwch y coetir cyfan yn cael ei effeithio cyn gynted ag y byddwch chi'n dechrau colli cennau a bryoffytau. Felly ydy, mae'n effeithio ar y coetir fel coetir gweithredol. Gofynnodd Chris a yw'n effeithio ar gyfradd twf coed neu a yw'n eu lladd. Dywedodd Jeremy na fydd yn lladd y coed oni bai eich bod yn mynd uwchben 3, yna byddwch yn dechrau gweld effeithiau ar y coed. Ond mae'r holl rywogaethau yn gysylltiedig, felly rydych yn dechrau colli bioamrywiaeth a gwydnwch. Dywedodd Polina mai lefel 1 yw lle mae'r cennau a'r bryoffytau yn marw. Os yw'n mynd i lefel 3, dyna lle mae planhigion eraill yn dechrau marw.

35. Roedd rhan 2 o gyflwyniad Polina yn ymwneud â thechnolegau newydd mewn rheoli maetholion (trin slyri a thail). Soniodd Polina am ddatganiad y Gweinidog a'r atebion technolegol – 'Byddwn hefyd yn cyflymu ein gwaith i annog atebion technolegol amgen posibl, gan ddefnyddio mecanwaith Rheoliad 45 i wneud hynny lle bo'n briodol, gan gynnwys archwilio'r potensial ar gyfer triniaethau a phrosesu tail gormodol i'w ddefnyddio mewn ardaloedd lle mae diffyg maethynnau a'r potensial i dechnoleg leihau'r risg o lygredd a hwyluso'r defnydd mwyaf effeithiol o'r rheoliadau yn y dyfodol'.
36. Tynnodd Polina sylw at y gwahanol driniaethau tail ffisegol, biolegol, a chemegol sydd ar gael. Roedd y cyflwyniad hwn yn cynnwys dau yn unig o'r rhestr o 16 o driniaethau: treuliad anaerobig (biolegol) ac asideiddio (cemegol).
37. Mae treuliad anaerobig sy'n gysylltiedig â chynhyrchu bionwy methan (CH<sub>4</sub>) yn lleihau allyriadau CH<sub>4</sub> o storio'r gweddillion treuliad anaerobig, yn lle defnyddio ynni ffosil. Mae cynnwys amoniwm a pH mewn slyri wedi'i dreulio yn uwch na mewn slyri heb ei drin, gan gynyddu'r potensial ar gyfer allyriadau NH<sub>3</sub>, sy'n gofyn am ddefnyddio storfeydd dan orchudd a gwasgaru tail allyriadau isel. Fel rhan o becyn integredig o fesurau, gall treulio anaerobig leihau colledion NH<sub>3</sub>, ocsid nitraidd (N<sub>2</sub>O) a nitrogen (N<sub>2</sub>), gan roi cyfle am ddulliau datblygedig o adfer maethynnau. Mae'r gofyniad am sylfaen anathraidd yn osgoi trwytholchi nitradau o gymharu â storio tail ar arwynebau athraidd.
38. Disgrifiodd Polina'r broses asideiddio. Mae asideiddio yn ystod y cyfnod dan do yn cynnwys fflysio slyri o'r pyllau ac ychwanegu asid ato nes cyrraedd y pH a ddymunir. Gall asideiddio slyri gwartheg i pH 5.5 leihau allyriadau NH<sub>3</sub> mwy na 90% ac, ar yr un pryd, leihau allyriadau'r nwy tŷ gwydr CH<sub>4</sub> (methan) hyd at 96% a CO<sub>2</sub> 67%. Defnyddir asideiddio yn helaeth yng Ngogledd Ewrop (Yr Almaen, Yr Iseldiroedd, Estonia). Mae'n gosteffeithiol ar gyfer ffermydd mawr a adeiladwyd yn bwrpasol. Mae nifer o astudiaethau wedi profi nad oes sail i bryderon am effaith negyddol slyri wedi'i asideiddio ar briddoedd. Yn yr ymchwil ddiweddaraf a ariennir gan Defra, mae nifer y mwydod fesul m<sup>3</sup> ychydig yn uwch yn y sampl wedi'i asideiddio nag yn y grŵp rheoli.
39. Trafododd Polina y rhwystrau i reoli maethynnau mewn ffermio cynaliadwy, gan gynnwys:
  - Ddim yn gosteffeithlon i symud slyri. Costau petrol uchel.
  - Bioddiogelwch. Oherwydd cyfyngiadau TB, yn aml ni chaniateir symud sgil-gynhyrchion anifeiliaid oddi ar y daliad.
  - Mae tail sy'n cael ei storio cyn triniaeth yn cael ei ddsbarthu fel gwastraff. Mae rheoliadau gwastraff yn berthnasol. Mae'n cynnwys trwyddedu neu eithriadau.

- Nid yw gweithfeydd AD yn cael grantiau/cyllid yng Nghymru.
- Mae triniaethau ond yn gosteifeithiol i ffermydd mawr sy'n cynnwys cynhyrchu slyri a chaeau crydau/glaswellt lle gellir ei ddefnyddio. Angen 'hybiau' ar gyfer daliadau llai o faint neu ar gyfer ffermydd arbenigol.

40. Roedd David Ball yn cofio bod amonia yn wyrdd ar y siart cylch o bethau sy'n elwa a phethau sydd ar eu colled ynghylch treulio anaerobig, gan awgrymu y byddai'r driniaeth o blaid allyriadau amonia. Fodd bynnag, yn y testun awgrymwyd fod y gweddillion treuliad anaerobig yn wynebu mwy o risg o allyrru amonia. Cytunodd Polina; dyma un o'r gwrthddywediadau a ganfuwyd. Eglurodd Polina os caiff ei wneud yn y ffordd integredig, y byddai'n elwa; os na, byddai ar ei golled. Cyfeiriodd Polina at y [Rhaglen Rheoli Llygredd Aer Genedlaethol \(NAPCP\)](#) ddiweddaraf.

41. Gofynnodd Marc Williams, CNC, a oedd Polina'n ymwybodol o'r gwaith mae N2 Applied wedi bod yn ei wneud, ble maent yn treialu rhywfaint o waith yng Ngholeg Gelli Aur ([N2 Applied - Gelli Aur](#)). Maent wedi gosod cynhwysydd i gymryd amonia allan ac yna ei roi yn ôl yn y tail - [Partneriaeth Maethol Fferm Tywi: Cyflwyniad N2 Applied](#). Dywedodd Polina ei bod yn ymwybodol o waith Gelli Aur a'i bod wedi eu hannog i gyfrif eu hallyriadau amonia, sy'n rhywbeth nad ydynt wedi'i wneud eto. Soniodd Polina mai 1 o'r 16 o driniaethau oedd dad-ddyfrio sef, yn y bôn, gwahanu solidau a hylifau, sef yr hyn mae Gelli Aur yn ei wneud, felly maent yn gwahanu solidau a dŵr mewn dwy ffordd wahanol ac yna'n ei brosesu ymhellach. Nid yw'r broses ddad-ddyfrio ei hun yn lleihau amonia. Dywedodd Marc fod hyn yn wahanol, gan fod Gelli Aur wedi cael cynhwysydd newydd yn ystod y mis diwethaf a gafodd ei osod gan N2 Applied. Mae'r broses wahanol hon yn canolbwyntio ar amonia a thynnu'r nwy hwnnw allan. Dywedodd Polina ei bod wedi cael yr wybodaeth honno, ond ei bod yn driniaeth ar wahân.

42. Dywedodd Polina ei bod yn symud i dîm arall o fewn Llywodraeth Cymru, a diolchodd i'r grŵp am y cyfle i siarad am amonia.

***PG Tachwedd 03: Polina Cowley, Llywodraeth Cymru, i rannu copi o'i chyflwyniadau amonia gyda'r grŵp.***

## **Eitem 6 Cynllun Corfforaethol CNC**

43. Ymunodd Sue Ginley, CNC, â'r cyfarfod i roi diweddariad ar Gynllun Corfforaethol CNC.

44. Ymhellach i'r diweddariad ym mis Hydref, dywedodd Sue fod CNC wedi bod yn gweithio ar ddrafft o Gynllun Corfforaethol nesaf CNC. Caiff y drafft ei gyhoeddi maes o law a bydd CNC yn gofyn am eich barn am yr hyn rydym yn ei gynnig ar gyfer ein Hamcanion Llesiant.

45. Mae gennym hefyd set o sleidiau yr hoffem eu rhannu â chi, ynghyd â holiadur byr. Dylai gymryd tua 10-15 munud i chi ei gwblhau. Bydd yr wybodaeth yn cael ei dosbarthu drwy Bronwen fel Ysgrifenyddiaeth y grŵp hwn. Gofynnodd Sue i bob aelod fwrw golwg ar yr holiadur, ei gwblhau a'i dychwelyd i CNC.

46. Atgoffodd Sue y grŵp fod amser yn brin ac mai'r dyddiad dychwelyd yw 6 Rhagfyr. Mae hyn er mwyn i ni gael trafod y mater eto gyda'n Tîm Gweithredol a'n cyfarwyddwyr cyn dychwelyd at Fwrdd CNC ym mis Ionawr.

47. Dywedodd Sue ei bod yn gwerthfawrogi help ac amser pawb ynghylch Cynllun Corfforaethol CNC a'i bod yn edrych ymlaen at glywed eich barn.
48. Anogodd Zoe bawb i gwblhau'r arolwg gan fod hwn yn gyfle i ddweud eich dweud ar Gynllun Corfforaethol CNC sy'n pennu cyfeiriad CNC ar gyfer y tair i bum mlynedd nesaf. Mae angen i ni gael cymaint o fewnbnw â phosibl.
49. Gofynnodd Bernard a oedd CNC am gael ymatebion gan sefydliadau yn hytrach nag unigolion. Dywedodd Sue ein bod yn awyddus i gael ymatebion gan sefydliadau.

***PG Tachwedd 04: Bronwen Martin, CNC, i rannu manylion Cynllun Corfforaethol CNC (Arolwg a sleidiau) pan fydd ar gael.***

## **Eitem 7 Cyflwyniad gan Ddinasyddion: Gwyddor Dinasyddion**

50. Ymunodd Dr Sue Byrne a Dr Morag Taite, CNC, â'r cyfarfod i roi cyflwyniad am dull CNC o ymdrin â Gwyddor Dinasyddion.
51. Dywedodd Sue fod Gwyddor Dinasyddion yn faes enfawr a bod sefydliadau fel NASA yn gwneud llawer ohono, ond mae gan CNC ddiddordeb mewn gwyddor dinasyddion amgylcheddol. Mae gan CNC ddatganiad sefyllfa ar y wefan, ond mae'n eithaf byr ac yn rhan o'n hadran ni ar ansawdd dŵr afon - [CNC - ansawdd dŵr afon: ateb eich cwestiynau](#). Mae'n tynnu sylw at y ffaith ein bod yn cydnabod bod gan wyddor dinasyddion botensial enfawr i'n helpu ni i ddiwallu ein hanghenion tystiolaeth.
52. Mae gan CNC berthynas hir â gwyddor dinasyddion, yn enwedig ar yr ochr fioamrywiaeth. Mae CNC yn cefnogi gwyddor dinasyddion ar lefel genedlaethol drwy Fframwaith Arsylwi Amgylcheddol y DU, sy'n cynhyrchu llawer o wybodaeth ddefnyddiol. Mae hynny'n cynnwys ystod eang o gyrff cyhoeddus sydd â diddordeb mewn monitro nid yn unig ni, ond Asiantaeth yr Amgylchedd, Natural England, Asiantaeth Ofod y DU a'r Swyddfa Dywydd. Drwy'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) a thrwy'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol, mae llawer o gymorth ar gyfer cynlluniau bioamrywiaeth penodol ac mae CNC yn defnyddio rhai o'r cynlluniau hynny i gyfrannu at ystadegau gwladol ac adroddiadau cenedlaethol.
53. Mae diwallu ein hanghenion tystiolaeth yn rheswm pwysig pam mae CNC yn cefnogi gwyddor dinasyddion. Rydym hefyd yn cydnabod bod manteision ehangach na'r data yn unig, gan gynnwys cael pobl i fynd allan i'r awyr agored, cael pobl i ddeall mwy am eu hamgylchedd a chyfrannu at addysg. Mae'n werth cymryd rhan mewn gwyddor dinasyddion i ddatblygu'r dulliau a'r cymorth sydd ar gael yn well. Mae hynny'n arbennig o wir ar yr ochr ansawdd dŵr sydd efallai'n llai sefydledig nag ochr fioamrywiaeth gwyddor dinasyddion.
54. O ran creu data defnyddiol, mae CNC yn arbennig o awyddus i annog prosiectau sy'n bodloni anghenion tystiolaeth CNC, mewn perthynas â'r [Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol \(SoNaRR\) 2020](#), yn fwy lleol mewn perthynas â'n [Datganiadau Ardal](#) a hefyd mewn perthynas â'n rhaglenni tystiolaeth. Mae hyn yn dal i ddatblygu, ac nid yw'r rhain wedi cyrraedd y pwynt lle gallwch ddod draw fel grŵp gwyddor dinasyddion a chydio yn rhywbeth oddi ar y silff o'r anghenion tystiolaeth hyn a'u defnyddio ar gyfer eich prosiectau. Ond yn sicr mae'n werth cymryd golwg arnynt, ac maent yn bwysig i ni o ran penderfynu pa brosiectau sy'n ddefnyddiol.

55. O ran datblygu gwyddor dinasyddion, ar lefel genedlaethol mae yna ambell fenter sy'n arbennig o allweddol. Rydym yn ymgysylltu â'r prosiect Catchment Systems Thinking Cooperative (CaSTCo). Tua £7 miliwn yw'r cyllid ar gyfer y prosiect hwn ac mae'n brosiect dwy neu dair blynedd. Mae potensial enfawr i ddarparu gwyddor dinasyddion yn yr amgylchedd dŵr. Mae gan y JNCC y Bartneriaeth Ddatblygu a Dadansoddi Goruchwyliaeth Ddaearol, lle mae llawer o waith yn cael ei wneud ar ddatblygu ein defnydd o ddata gwyddor dinasyddion ac, nid yn unig y data o gynlluniau cofnodi amrywiaeth ddall hynod strwythuredig, ond hefyd edrych ar ddatblygiadau wrth fodelu dulliau dysgu peirianyddol a dulliau dadansoddi soffistigedig er mwyn gwneud gwell defnydd o ddata gwyddor dinasyddion. Un o fentrau eraill JNCC yw'r Bartneriaeth Dystiolaeth Ddaearol o Bartneriaethau, sy'n rhoi cymorth i ystod eang o sefydliadau sy'n casglu data gwyddor dinasyddion.
56. Daw'r canllaw defnyddiol allweddol gan Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban (SEPA) ynghylch defnyddiau gwyddor dinasyddion gan y gallai rhai prosiectau fod yn addas iawn i wyddor dinasyddion, ond nid felly brosiectau eraill. O ran Fframwaith Arsylwi Amgylcheddol y DU, mae ganddynt lawer o adnoddau ar gyfer gwyddor dinasyddion sy'n hygyrch i unrhyw un i helpu pobl i sefydlu a darparu prosiectau gwyddor dinasyddion effeithiol.
57. O ran cyngor CNC, y cyngor gorau yw dod o hyd i gynllun cofnodi sefydledig (e.e. cynllun cofnodi bioamrywiaeth) neu blatfform sefydledig i ddal eich data - mae hynny'n ddull da o ymdrin â phrosiect gwyddor dinasyddion. Mae'n ei wneud yn symlach ac mae ganddo well siawns o sicrhau bod eich data'n cael ei ddefnyddio. Yr ail awgrym fyddai sicrhau eich bod yn cael cymorth arbenigol ynghylch dadansoddi a dehongli data, cyn i unrhyw un ddechrau casglu data. Mae'n hawdd mynd allan a chasglu llawer o wybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol ond yna, pan fyddwch yn ei ddadansoddi, canfod nad yw yn y fformat cywir neu mai'r un peth allweddol a fyddai wir wedi helpu yw'r peth nad ydych wedi'i gasglu.
58. O ran y cynlluniau cofnodi presennol, mae canolfannau cofnodi lleol yn lle da i ddechrau. Mae yna ambell ap a lle y gallwch chi edrych i gysylltu â chynlluniau cofnodi presennol.
59. Un o'r pethau pwysicaf y gall gwyddonwyr dinasyddion ei wneud i CNC yw adrodd am ddigwyddiadau o lygredd drwy ein llinell gymorth 24/7. Efallai na fydd CNC yn mynd allan i bob adroddiad sy'n cael ei roi yn y system, ond bydd rhywun yn edrych ar bob adroddiad a byddant yn mynd tuag at ein gwybodaeth ac yn ein helpu i ddeall dalgylchoedd.
60. Soniodd Sue am rai cynlluniau ychwanegol sydd i gael y gallai CNC eu defnyddio, er na all CNC warantu ar hyn o bryd sut y byddwn yn defnyddio'r data. Mae yna ap ar gyfer cofnodi algâu, ac mae CNC wedi gwneud rhywfaint o waith gyda Riverflies a SmartR.
61. Mae'n llawer mwy cymhleth os ydych chi'n edrych ar ymchwiliad pwrpasol. Mae'r cyngor proffesiynol o'r dechrau mor bwysig i sicrhau eich bod yn gofyn y cwestiynau cywir am eich gwaith monitro, a'i fod wedi'i gynllunio'n dda.

62. Soniodd Sue mai prin yw adnoddau CNC ar hyn, felly er y gallwn ddarparu rhai sylwadau a chyngor cychwynnol, byddem yn disgwyl y byddai prosiectau angen mewnbwn gan weithwyr proffesiynol eraill.
63. Soniodd Sue am rai prosiectau pwrpasol sydd wedi gweithio'n dda, gan gynnwys yr Oxford Bathing Water Project, sy'n defnyddio data ansawdd dŵr gwyddor dinasyddion, ond cafodd y dadansoddiad ei wneud gan Thames Water yn eu labordai eu hunain. Mae Cynllun Monitro Peillwyr y DU yn ddull monitro gwyddor dinasyddion eang a defnyddiol. Roedd y cynllun hwn yn cael llawer o gyllid gan y llywodraeth a help gan brifysgolion i gynllunio'r cynllun.
64. Y Greal Sanctaidd ar gyfer ymchwiliadau pwrpasol yw cynllunio dull monitro gwyddor dinasyddion lle mae'r dadansoddiad wedi'i osod fel ei fod yn awtomatig ac, yn ddelfrydol, bod y data'n cael ei gyflwyno mewn ffordd awtomatig ac ar gael i'r bobl sydd wedi ei gasglu i weld canlyniadau eu llafur.
65. Dywedodd Chris Mills ei fod yn ddiddorol bod y cyflwyniad yn ymwneud â'r hyn sydd ei angen ar CNC. Dywedodd Chris mai'r argraff a gafodd i raddau oedd bod gwyddor dinasyddion yn cael ei wneud gan bobl llai cymwys. Y gwir yw bod rhywfaint o'r wyddor dinasyddion sy'n cael ei chynnal ar hyn o bryd yn cael ei chynnal gan fod llawer o anfonlonrwydd gyda'r monitro sy'n cael ei wneud gan CNC. Mae rhai o'r rhai sy'n cyflawni gwyddor dinasyddion yn gyn-weithwyr proffesiynol ac ati. Awgrymodd Chris fod angen bod yn ofalus gan fod cynulleidfaoedd gwahanol ar gyfer gwyddor dinasyddion. Mae yna gynulleidfa allan yna sydd eisiau cymryd rhan ac efallai sydd angen y canllawiau, ond mae yna gynulleidfa arall, sydd ychydig yn fwy beirniadol, sy'n herio rhywfaint o'r gwaith sy'n cael ei wneud neu nad yw'n cael ei wneud ar hyn o bryd. Cytunodd Sue gyda rhai o bwyntiau Chris, yn sicr mae yna rai pobl hynod wybodus ac arbenigol yn gwneud gwaith gwyddor dinasyddion. Dywedodd Sue yn gynharach y dylai pobl gael cyngor arbenigol, a chydabu fod hynny weithiau'n dod gan grwpiau gwyddor dinasyddion.
66. Gofynnodd Bernard pa gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod y data'n annibynnol ac a oes unrhyw duedd, er enghraifft, o ran dilysu'r data. Dywedodd Sue ei bod yn haws defnyddio cynllun sydd eisoes wedi'i sefydlu, felly os ydych chi'n meddwl am rai o'r cynlluniau cofnodi biolegol, maent yn dilysu'r data ac mae hynny'n cael ei wirio gan arbenigwyr. Rydym ar ei hôl hi ar yr ochr ansawdd dŵr o gymharu â ble rydym ni gyda'r ochr fioamrywiaeth. Mae rhai o'r cynlluniau bioamrywiaeth hynny wedi bod ar waith ers amser maith ond mae'n bwysig eu cynllunio ar y dechrau a chael y cyngor arbenigol hwnnw yn gynnar fel bod unrhyw faterion yn cael eu canfod a'u trafod ar y dechrau, yn hytrach nag yn nes ymlaen pan fydd pobl eisoes wedi dechrau casglu data. Mae hefyd yn bwysig deall beth yw amcan y cynllun a beth yw cyfyngiadau'r cynllun.
67. Dywedodd Zoe ei bod wedi gobeithio y byddai CNC yn siarad am y prosiectau a allai gefnogi ein diffyg adnoddau a helpu i gasglu rhagor o wybodaeth. Ond mae hyn yn ymwneud â pha brosiectau y gallai CNC helpu i'w cefnogi, ac maent yn chwilio am bobl eraill i gynnig prosiectau ac efallai eu cyflwyno i CNC, yn hytrach nag i'r gwrthwyneb. Gofynnodd Zoe pa feysydd sydd wir angen hwb (e.e. ansawdd dŵr). Mae rhai o'r bobl yn ffermwyr a bydd y mwyafrif o ffermwyr yn dysgu o hyn ac yn onest iawn wrth gasglu data. Dywedodd Zoe fod cyfle i gasglu rhagor o wybodaeth. Tynnodd Sue sylw at ei sleid ynghylch anghenion tystiolaeth CNC, gan gynnwys ein hanghenion tystiolaeth ddŵr. Mae gennym ddiddordeb mewn prosiectau sy'n cefnogi ein hanghenion

tystiolaeth ond, ar hyn o bryd, y peth pwysig yw cael cynlluniau wedi'u cynllunio a phrin iawn yw adnoddau CNC o ran creu cynlluniau ar hyn o bryd. Soniodd Sue mai un o'r rhesymau rydym wedi dod â Morag i mewn yw i gael golwg ar yr hyn a allai fod yn bosibl. Ar hyn o bryd, dim ond tan ddiwedd mis Mawrth sydd gennym ni, ond bydd Morag yn cymryd golwg ar beth yw'r cyfleoedd i ni wneud gwell defnydd o wyddor dinasyddion. Ond mae angen i ni fod yn realistig; byddai'n drueni casglu llawer o ddata ac yna darganfod nad oedd modd defnyddio'r rhan fwyaf ohono. Mae gennym ddiddordeb mewn ceisio canolbwyntio ar rai pethau penodol a fyddai'n ddefnyddiol i CNC ac a fyddai o ddiddordeb i'r grwpiau a fyddai'n casglu'r data. Awgrymodd Zoe y gallai hyn gael ei godi gyda Marc a Bronwen i geisio deall pa fath o brosiectau a allai fod o fewn y grŵp yma a fyddai hefyd o fudd i CNC, ffermwyr, pysgotwyr a'r afonydd.

68. Dywedodd Creighton ei fod yn deall yr angen am wyddor dinasyddion, ond ei fod hefyd yn deall mai prin iawn yw'r adnoddau o fewn CNC ac efallai nad yw'r wybodaeth a ddarperir i chi mor wybodus ag y gallai fod. Dywedodd Creighton ei fod yn gobeithio gweld y byddai CNC yn ystyried gwybodaeth a dderbyniwyd o ran deallusrwydd, fel y gallwch ganolbwyntio eich monitro ar ble mae'r problemau a pheidio â diystyru sylwadau neu wybodaeth a ddarperir gan bobl nad ydynt wedi'u hyfforddi nac yn brofiadol (e.e. ynghylch ardaloedd lle ceir adroddiadau dro ar ôl tro). Dywedodd Sue mai dyma un o brif fanteision prosiect gwyddor dinasyddion. Mae hyn hefyd yn gysylltiedig â system adrodd digwyddiadau CNC lle rydym yn cofnodi'r holl wybodaeth sy'n cael ei hanfon atom ac yn gallu edrych arni dros y tymor hir, sy'n helpu i gael dealltwriaeth o ddalgylch. Os ydych chi'n cael adroddiadau dro ar ôl tro o ardal benodol, mae hynny'n ein helpu i dargedu ein gwaith. Soniodd Creighton ei fod wedi trafod hyn gyda grwpiau amrywiol a'i fod bob amser yn annog pobl i adrodd ddigwyddiadau i CNC. Fodd bynnag, nid yw CNC bob amser yn ymateb i ddigwyddiad, felly nid oes gan bobl lawer o ffydd yn CNC. Awgrymodd Creighton y dylid rhoi gwell adborth i bobl sydd wedi adrodd digwyddiadau fel eu bod yn gwybod beth sydd wedi digwydd i'r wybodaeth y maent wedi'i darparu. Os mai at ddibenion deallusrwydd yn unig y mae ar hyn o bryd, gallwch ddweud ei fod yn cael ei ddefnyddio i ganolbwyntio gwaith monitro gan CNC. Roedd Sue yn gwerthfawrogi sylwadau Creighton.

69. Dywedodd Morag Taite, CNC, y bydd yn ddiddorol cael safbwynt pobl ar brosiectau y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt, beth fyddai'n ddefnyddiol iddynt a sut y gallwn gasglu'r data. Mae'n bwysig cael pobl i feddwl sut y maent yn casglu data fel ei fod yn gallu bod yn ddefnyddiol i bawb.

70. Soniodd Sue fod Bronwen wedi awgrymu dod yn ôl i'r grŵp yn ddiweddarach. Cytunodd Zoe a dywedodd y byddai hynny'n gyfle da i wneud gwaith dilynol.

**PG Tachwedd 05: Bronwen Martin, CNC, i ddsbarthu copi o'r cyflwyniad Gwyddor Dinasyddion.**

## **Eitem 8 Unrhyw Fater Arall**

71. Cynhelir cyfarfod nesaf Is-Grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ddydd Llun 12 Rhagfyr 2022.

## **Diwedd y cyfarfod**